Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Bil Cynhyrchion Plastig Untro



Sut y dylai **busnesau** baratoi ar gyfer y gwaharddiadau

Pam ydym yn gwneud hyn?

Rydym am i Gymru fod yn rhydd o blastig untro diangen (SUP). Drwy wahardd neu gyfyngu ar y cyflenwad o gynhyrchion sy'n cael eu taflu'n sbwriel yn aml byddwn yn osgoi gadael gwaddol plastig gwenwynig i genedlaethau'r dyfodol ddelio ag ef. Bydd hefyd yn ein helpu i ymateb i'r argyfyngau hinsawdd a natur.

Pa gynhyrchion plastig untro sy'n cael eu gwahardd?

Mae **Cam 1** yn cynnwys gwaharddiadau ar yr isod:

- Platiau
- Cytleri
- Troyddion diodydd
- Gwellt yfed
- Ffyn balwnau
- Ffyn cotwm â choesyn plastig
- Cwpanau wedi'u gwneud o bolystyren ewynnog
- Cynwysyddion cludfwyd sydd wedi'u gwneud o bolystyren ewynnog

Mae **Cam 2** yn cynnwys gwaharddiadau ar yr isod:

- Cwpanau a chaeadau cynwysyddion cludfwyd wedi'u gwneud o bolystyren
- Cynhyrchion plastig ocso-ddiraddadwy
- Bagiau siopa (meintiau penodol)

Beth sydd angen i fusnesau ei wneud?

- Defnyddio hen stoc
- Siarad â'ch cyflenwyr nawr am archebu dewisiadau eraill, dechrau addysgu eich staff a rhoi gwybod i'ch cwsmeriaid
- Bydd rhai eithriadau ar gyfer gwellt plastig untro i'r rhai sydd eu hangen i fwyta ac yfed yn annibynnol.
- Os bydd rhywun yn gofyn am welltyn plastig untro, neu pan fydd rhywun yn gofyn ar ei ran, ni fydd angen iddynt ddarparu prawf o'r angen hwnnw.
- Rhaid i busnesau beidio â chynnig gwellt plastig untro i gwsmeriaid, na'u harddangos.
- Bydd canllawiau cynhwysfawr yn cael eu cyhoeddi'r flwyddyn nesaf.

6 Rhagfyr 2022 – Y Bil yn cael ei basio yn y **Senedd**

Rhagfyr 2022 – Mai 2023 – Datblygu **canllawiau cynhwysfawr**

Haf 2023 – Cyhoeddi **canllawiau cynhwysfawr**

Hydref 2023 – **Gwaharddiadau Cam 1** yn dod i rym

2023–2026 – **Gwaharddiadau Cam 2** i ddod yn ystod Tymor y Senedd hon

OGL © Hawlfraint y Goron 2022, Llywodraeth Cymru WG46357